# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Tŷ Mabon Tywyn**

**Cylch Meithrin Tywyn**
**Tŷ Mabon**
**Neptune Road**
**Tywyn**
**LL36 9ET**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

04/11/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Tŷ Mabon Tywyn

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gofal plant dyddiol<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Cylch Meithrin Tŷ Mabon Tywyn |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers cofrestru ar 04.01.21 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Nid oes angen sgôr** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Nid oes angen sgôr** |
| **Yr Amgylchedd** | **Nid oes angen sgôr** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Nid oes angen sgôr** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

***Mae hwn yn arolygiad a gynhaliwyd yn ystod y pandemig COVID-19,felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd llawn.***

Mae'r plant yn hapus ac yn sefydlog ac yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Maent yn uchel eu cymhelliant i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â'u chwarae a'r gweithgareddau maent yn cymryd rhan ynddynt. Mae'r staff yn garedig ac yn ofalgar ac yn trin plant gyda pharch. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn sicrhau bod eu diddordebau a'u syniadau yn cael eu blaenoriaethu wrth gynllunio gweithgareddau. Mae'r safle yn lân ac yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cyffrous i blant ddysgu drwy chwarae â deunyddiau go iawn a naturiol. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn ymroddgar ac yn deall eu cyfrifoldebau wrth gyflenwi'r gwasanaeth. Maent wedi ymrwymo i wneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion plant a'u teuluoedd yn effeithiol.

| Llesiant | Nid oes angen sgôr |
| --- | --- |

Mae'r plant yn uchel eu cymhelliant wrth wneud penderfyniadau ac yn dewis sut maent yn treulio'u hamser. Maent yn symud yn rhydd o gwmpas yr ardaloedd chwarae a'r gweithgareddau sydd ar gael ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn awyddus ac yn hyderus i rannu eu syniadau, ateb cwestiynau a sgwrsio gyda staff, gan wybod y bydd y staff yn gwerthfawrogi'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Er enghraifft, trwy eu cynnwys yn eu chwarae a sgwrsio gyda staff am eu bywyd gartref.

Mae gan blant ymdeimlad o sicrwydd gan eu bod nhw'n gyfarwydd â'r drefn arferol. Er enghraifft, maent yn gwybod bod cân benodol yn nodi ei bod hi'n amser iddynt olchi eu dwylo. Mae plant yn teimlo yn gyfforddus yn gofyn i staff gofal am gysur neu gadarnhad pan fydd angen. Mae plant wedi dechrau gwneud ffrindiau ac yn sgwrsio gyda'i gilydd yn ystod amser chwarae ac amser cinio, gan rannu llawer o chwerthin a gwenu wrth wneud hynny.

Mae'r plant yn gwrando yn dda ac yn hapus i helpu gyda thasgau a dilyn cyfarwyddiadau. Er enghraifft, roeddent yn mwynhau helpu gwneud cacennau bach ar gyfer yr arwerthiant pobi. Maent yn chwarae yn dda gyda'i gilydd ac yn dechrau gwneud ffrindiau. Mae plant yn medru rhannu teganau a chymryd eu tro yn dda, er enghraifft wrth chwarae ac arbrofi gyda'r pys melyn a'r clorian bwyso yn y gegin chwarae.

Mae plant yn mwynhau eu chwarae ac yn cael hwyl wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae plant yn canolbwyntio ar dasgau ac yn dangos diddordeb yn yr hyn maent yn ei wneud. Er enghraifft, canolbwyntiodd plant yn dda pan oeddent yn creu cerddoriaeth gyda'i gilydd ac yn archwilio'r offerynnau cerdd. Roeddent yn dangos diddordeb mewn gwneud gwahanol synau ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i greu cân i'w pherfformio.

Mae plant yn dysgu sut mae gwneud pethau drostynt eu hunain gan eu bod nhw'n cael eu cynorthwyo gan staff. Maent yn cael eu hannog i benderfynu drostynt eu hunain pa weithgareddau i gymryd rhan ynddynt a sut i gwblhau tasgau. Er enghraifft, maent yn penderfynu drostynt eu hunain pa ystafell yr hoffent chwarae ynddi ac yn dewis o'r adnoddau sydd ar gael gan eu bod nhw i gyd yn cael eu storio o fewn eu cyrraedd.

| **Gofal a Datblygiad** | **Nid oes angen sgôr** |
|---|---|

Mae staff yn deall eu rolau ac yn dilyn y gweithdrefnau cywir  i sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach.  Maent i gyd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac roedd y rhai y gwnaethom siarad â nhw yn medru dweud wrthym am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai pryder ganddynt ynglŷn â phlentyn.  Mae nifer digonol o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig hefyd. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau'n briodol ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu llofnodi gan rieni.  Mae staff hefyd yn sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu hymarfer o leiaf unwaith bob tymor i sicrhau bod plant a staff yn gwybod sut i adael yr adeilad yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng. Fodd bynnag, mae angen i staff sicrhau eu bod nhw'n cael caniatâd gan rieni ar gyfer cymorth cyntaf mewn argyfwng cyn i blant ddechrau yn y gwasanaeth.

Mae staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fwyta ac yfed; maent yn annog rhieni i ddanfon byrbrydau a chinio iach ar gyfer eu plant ac yn sicrhau bod plant yn medru cael gafael ar eu poteli diod drwy gydol y dydd. Maent yn annog plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn dilyn y gweithdrefnau hylendid priodol wrth drafod bwyd. Dywedodd staff wrthym eu bod nhw'n cynllunio cyfleoedd i blant dreulio amser yn yr awyr agored yn rheolaidd, ac roedd lluniau yn dangos plant yn gwneud hyn; fodd bynnag, nid oedd y plant yn treulio unrhyw amser yn yr awyr agored yn ystod ein hymweliad.

Mae gan staff gydberthnasau cadarnhaol gyda phlant; maent yn siarad â nhw mewn ffordd garedig a thawel ac yn darparu cysur a sicrwydd pan fydd eu hangen ar blant.  Maent yn delio â dadleuon neu ymddygiad anaddas yn gadarnhaol.  Er enghraifft, drwy roi llawer o ganmoliaeth pan oedd plant yn ymddwyn yn dda a'u hailgyfeirio at weithgaredd arall os oedd unrhyw ddadleuon bach. Roedd staff yn batrwm cwrteisi da drwy gydol y sesiwn ac yn rhoi llawer o ganmoliaeth pan oedd plant yn gwneud hyn hefyd.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn gyfarwydd â'u hoffterau ac anhoffterau. Maent yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion gofal, personol a meddygol unigol plant cyn iddynt ddechrau mynychu'r lleoliad, sydd yn eu helpu nhw i gynllunio yn effeithiol. Mae'r unigolyn â gofal yn sicrhau bod cynlluniau gweithgareddau manwl ar waith, sydd yn cynnwys amrywiaeth dda o dasgau i ddatblygu sgiliau plant ar draws pob maes dysgu. Mae'r rhain yn cael eu harwain gan y plant ac yn seiliedig ar eu diddordebau, er enghraifft unrhyw themâu neu storïau maent wedi eu mwynhau yn arbennig. Mae staff yn cynnal proffiliau dysgu unigol i ddilyn cynnydd plant yn ogystal â chadw nodiadau arsylwi a ffotograffau.  Anfonir dyddiaduron unigol adref bob dydd i roi gwybod i rieni am amser eu plentyn yn y lleoliad ac mae tudalen cyfryngau cymdeithasol gaeedig wedi'i chreu i rannu ffotograffau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, yn ogystal â gwybodaeth bwysig arall.

| Yr Amgylchedd | Nid oes angen sgôr |
|---|---|

Mae pobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn sicrhau bod staff yn dilyn gweithdrefnau i gadw plant yn ddiogel. Mae ganddynt asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr ar waith, sydd yn amlinellu unrhyw beryglon posib i ddiogelwch plant a sut mae'r rhain yn cael eu rheoli. Hefyd, mae’r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad wedi llunio asesiad risg a pholisi pwrpasol yn amlinellu'r gweithdrefnau ychwanegol sydd ar waith i atal lledaeniad posib COVID-19. Roedd yr ardaloedd dan do yn saff a diogel. Fodd bynnag, roedd rhai peryglon yn yr ardal awyr agored, fel biniau ag olwynion ar gael i blant a llawr rwber yn dechrau codi mewn mannau.

Mae pob ardal sydd yn cael ei defnyddio gan blant yn groesawgar ac yn helaeth. Mae pobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad wedi trefnu'r ystafelloedd chwarae i greu ardaloedd dysgu sydd yn darparu ystod o weithgareddau diddorol i'r plant. Mae teganau ac adnoddau yn cael eu storio ar lefel isel fel bod y plant yn gallu cael gafael arnynt yn rhwydd. Mae'r dodrefn, fel cadeiriau a byrddau isel, yn addas i oedran y plant. Mae staff yn arddangos ffotograffau a samplau o waith y plant ar hysbysfyrddau, sydd yn darparu ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae'r ardaloedd awyr agored yn darparu rhai cyfleoedd i blant chwilota a chwarae i ddatblygu eu dychymyg, gan gynnwys cegin fwd, sleid, tŷ bach twt, a theganau i’w gyrru.

Mae’r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn darparu ystod eang o deganau ac adnoddau i’r plant ac mae’r rhain mewn cyflwr da ac yn addas i oedran y plant a'u camau datblygu. Mae’r staff wedi gweithredu'r 'Dull Chwilfrydedd' lle mae plant yn medru chwarae â deunyddiau ac offer go iawn a’u harchwilio. Er enghraifft, mae'r ardal chwarae rôl yn llawn offer cegin, llestri a photiau go iawn, yn ogystal â jariau o bys melyn a phasta y gallant eu harllwys a'u mesur. Mae yna hefyd ardal adeiladu thematig lle gall plant adeiladu a chwilota deunyddiau go iawn, fel brigau, cerrig, cregyn a moch coed. Mae'r teganau a'r adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Mae staff yn cadw cofnodion manwl o’r amseroedd y maent yn cael eu glanhau a'u gwirio. Mae’r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn darparu digon o adnoddau amlddiwylliannol a Chymreig i alluogi plant i ddysgu mwy am y byd maent yn byw ynddo.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Nid oes angen sgôr

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent yn rhannu'r weledigaeth am y lleoliad yn effeithiol gyda nhw ac yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn cael eu dilyn yn effeithiol. Mae polisïau yn cael eu hadolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu cadw'n gyfredol. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, sy'n golygu bod rhieni yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus o ran a all y lleoliad ddiwallu eu hanghenion ac anghenion eu plant.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn awyddus i sicrhau eu bod nhw'n datblygu ac yn gwella'r gwasanaeth y maent yn ei gynnig yn barhaus. Maent yn ceisio adborth oddi wrth rieni ar lafar yn rheolaidd yn ogystal ag anfon holiaduron at rieni, staff, a gweithwyr proffesiynol eraill sydd yn ymweld yn rheolaidd. Mae safbwyntiau plant yn cael eu hystyried hefyd drwy siarad â nhw ac yn ystod arsylwadau dyddiol, er enghraifft wrth wylio pa adnoddau y mae'r plant yn eu hoffi a'r rhai nad ydynt yn eu defnyddio. Mae'r adroddiad ansawdd gofal yn cynnwys pa welliannau sydd wedi cael eu gwneud yn barod, a'r rhai sydd wedi cael eu cynllunio mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant a chymorth rheolaidd er mwyn cyflawni eu rolau yn effeithiol. Mae'r unigolyn â gofal yn aros am ardystiad am gymhwyster perthnasol sydd wedi'i restru ar restr Gofal Cymdeithasol Cymru o gymwysterau addas. Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad wedi cyflwyno cynllun cymorth i Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) yn amlinellu'r mesurau sydd wedi eu rhoi ar waith i sicrhau ei bod hi'n cael cefnogaeth dda i gyflawni ei rôl. Roedd gan bob aelod o staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, sydd yn dangos bod gwiriadau recriwtio diogel ar waith. Fodd bynnag, nid oedd ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Hefyd, dechreuodd yr unigolyn â gofal gasglu'r wybodaeth oedd ar goll ar unwaith. Gwelsom gofnodion ysgrifenedig yn dangos bod arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio staff rheolaidd wedi cael eu cynnal.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o wybodaeth a oedd wedi cael ei chasglu oddi wrth rieni yn manylu anghenion, hoffterau ac anhoffterau penodol plant. Roedd yr adborth oddi wrth rieni yn ganmoliaethus iawn o'r gofal y mae eu plant yn ei gael. Dywedasant wrthym fod ganddynt gydberthnasau cadarnhaol gyda staff, a oedd yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd yn nyddiaduron unigol y plant yn ogystal â thrwy grŵp caeedig ar y cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd rhieni hefyd fod staff yn hawdd mynd atynt os oeddent am drafod unrhyw faterion gyda nhw.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 – Sicrhau bod y biniau yn yr awyr agored yn cael eu storio allan o gyrraedd y plant.

A2 – Sicrhau y gofynnir am ganiatâd gan riant sydd wedi'i arwyddo i roi cymorth cyntaf sylfaenol i blant pe bai argyfwng.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Mae'r darparwr heb ofyn am y dogfennau angenrheidiol i fodloni ei hun am addasrwydd y staff i weithio yn y lleoliad. | Newydd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymroddedig i welliannau parhaus, ac sydd â nifer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion ac arloesi blaenllaw o fewn y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel, ac maent yn gallu dangos eu bod yn gwneud cyfraniad cryf i wella lles plant. |
| **Da** | Mae'r rhain yn wasanaethau sydd â llawer o gryfderau, a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant arwyddocaol. Maent yn rhagori ar ofynion sylfaenol yn gyson, yn darparu canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hyrwyddo eu lles mewn modd gweithredol. |
| **Boddhaol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae eu cryfderau'n gorbwyso eu meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni gofynion sylfaenol, ond mae angen gwelliannau i hyrwyddo lles ac i wella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau, a lle mae  enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar les y plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 11/01/2022'